# HYSBYSIAD ENGHRAIFFT

Rhaid arddangos yr hysbysiad ar y safle am gyfnod o ddim llai na 28 diwrnod yn olynol gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddwyd y cais i'r Awdurdod Trwyddedu perthnasol. Rhaid arddangos yr hysbysiad, ym mhob achos, yn amlwg yn neu ar y safle y mae'r cais yn ymwneud ag ef lle gellir ei ddarllen yn gyfleus o du allan y safle, ac yn achos safle sy'n cwmpasu ardal o fwy na hanner cant metr sgwâr, rhaid arddangos hysbysiad pellach yn yr un ffurf ac yn amodol ar yr un gofynion bob hanner cant metr ar hyd perimedr allanol y safle sy'n ffinio ag unrhyw briffordd;

Rhaid cyhoeddi'r Hysbysiad yn y Papur Newydd Lleol o leiaf unwaith o fewn 10 diwrnod gwaith gan ddechrau'r diwrnod ar ôl i'r cais gael ei wneud i'r Awdurdod Trwyddedu.

Rhaid i'r Hysbysiad i'w arddangos ar y safle fod: o faint sy'n hafal i neu'n fwy na A4, o liw glas golau, wedi'i argraffu'n ddarllenadwy mewn inc du neu wedi'i deipio mewn du mewn ffont o faint sy'n hafal i neu'n fwy na 16;

**Gellir gweld enghraifft o eiriad hysbysiad isod:-**

Mae BfD Bee Shop Ltd yn gwneud cais i amrywio Trwydded Safle ar gyfer Bees for Development, 1 Agincourt Street, Trefynwy.

Pwrpas y Drwydded, os caiff ei rhoi, yw galluogi'r Gweithgareddau canlynol i ddigwydd:

Cyflenwad o Alcohol: 10.00 o'r gloch – 16.00 o'r gloch - Dydd Sul

Gall unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau mewn perthynas â'r cais hwn wneud hynny drwy ysgrifennu at yr Adran Drwyddedu, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga. Gellir gwneud sylwadau 28 diwrnod yn olynol o ddyddiad yr hysbysiad hwn.

Cedwir copi o'r cais am roi'r drwydded uchod gan yr Adran Drwyddedu. Gellir gweld y cais o ddydd Llun i ddydd Iau 9am i 5pm a dydd Gwener 9am i 4.30pm ac eithrio diwrnodau Gŵyl y Banc yn Hybiau'r Cyngor/Neuadd y Sir, Brynbuga drwy drefniant ymlaen llaw yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad uchod. Mae copi o'r cais hefyd ar gael i'w weld ar-lein www.monmouthshire.gov.uk/cy

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid mewn cysylltiad â chais. Mae'r ddirwy y mae person yn atebol amdani ar gollfarn ddiannod am y drosedd yn ddiderfyn.

Dyddiad: 4ydd Tachwedd 2025

O.N. **Rhaid** i ddyddiad yr Hysbysiad hwn fod y diwrnod ar ôl i'r cais gael ei roi'n gywir i'r Awdurdod Trwyddedu.